# Adroddiad Arolygu

**Anheddau Cyf**

**Anheddau Cyf**
**Uned 6 Llys Britannia**
**Ffordd Y Parc, Parc Menai**
**Bangor**
**LL57 4BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Anheddau Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Anheddau Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw<br>18 Medi 2018 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Mae Anheddau Cyf wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref i oedolion ag amrywiaeth eang o anghenion mewn ardaloedd o Ogledd Cymru. Mae unigolyn cyfrifol ar waith sydd wedi'i gofrestru ag AGC. Mae gan y gwasanaeth reolwr hefyd sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Arolygiad lle rhoddwyd rhybudd oedd hwn, i sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol ar gael i gyfarfod â'r arolygydd yn y swyddfa.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr wedi achub y blaen ar effeithiau pandemig COVID-19 ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ogystal â'r staff. Buddsoddwyd swm mawr o arian i gaffael cyfarpar diogelu personol (PPE) er mwyn sicrhau diogelwch y bobl a'r staff. Mae'r staff wedi parhau i gael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio/cymorth i sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddal i redeg drwy gydol y pandemig. Mae'r bobl yn canmol y gwasanaeth a'r staff gofal yn fawr. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u galluogi i gynnal eu hannibyniaeth gymaint â phosibl. Roedd y bobl yn hynod falch o fod wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn ystod y cyfnodau o ynysu yn sgil y pandemig. Dywedodd y staff wrthym eu bod hapus yn y gwaith a'u bod yn cael eu goruchwylio a'u hyfforddi'n dda. Gwelsom fod anghenion a dewisiadau'r bobl wrth wraidd eu cynllun gofal personol.

## Llesiant

Mae'r bobl wrth wraidd eu cynllun gofal. Gwelsom fod cynlluniau personol yn nodi hoff bethau'r bobl, eu cas bethau a'r arferion a ffefrir ganddynt. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Cânt eu hannog wrth ymgymryd â'u harferion beunyddiol, eu tasgau yn y cartref a'u lleoliadau gwaith lle y bo'n berthnasol. Caiff y bobl eu galluogi i gymdeithasu gymaint â phosibl ac i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal archwiliadau o'r gwasanaeth ac yn gwrando ar farn y bobl i sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd. Dywedodd un o'r bobl y mae'r gwasanaeth yn ei gefnogi, "I am nice and happy, I have a lovely home here, and I love everyone here" (Rwy'n hapus braf, mae cartref hyfryd gennyf, ac rwy'n hoff iawn o bawb yma).

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant ar hawliau'r bobl a sut i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed orau. Cynhelir archwiliadau o'r gwasanaeth i wneud yn siŵr bod y gofal yn cael ei roi yn unol â'r cynlluniau. Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r awdurdodau priodol am unrhyw ddigwyddiadau er mwyn diogelu'r bobl.

Caiff y bobl eu galluogi i gymdeithasu a bod yn rhan o'r gymuned. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl gyda gweithgareddau megis nofio, teithiau dydd a chynllunio teithiau (gan ystyried y pandemig). Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar lefel y gweithgarwch y maent yn gallu ei fwynhau, ac yn teimlo bod ganddynt lefel dda o ddewis personol ac annibyniaeth.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl gael dylanwad ar eu cynllun gofal. Gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r bobl yn rheolaidd am eu gofal a'u cymorth. Mae'r staff yn trafod barn y bobl yn ystod cyfarfodydd staff, gan gynnwys eu cynlluniau a'u dyheadau. Gwelsom y staff yn mynd ati i geisio atebion i gefnogi'r bobl yn y ffordd orau i gyflawni eu nodau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio ansawdd y gofal drwy ymgynghori â'r bobl a'r staff. Caiff pobl ag anghenion arbenigol eu cefnogi'n fedrus drwy waith ymgynghori ac asesiadau risg, a gynhelir ar y cyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.  Caiff canlyniadau'r cyfarfodydd hyn eu dogfennu yn ffeiliau personol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys lefel dda o fanylion am sut y dylid cefnogi pob unigolyn. Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant arbenigol i wneud yn siŵr y gallant ddiwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau rheoli ac adolygu meddyginiaethau. Mae proffil meddyginiaethau ar gael yn ffeiliau personol y bobl hynny sy'n eu cymryd er mwyn rhoi gwybod i'r staff a'u cyfarwyddo. Caiff adolygiadau gan feddygon teulu eu dogfennu yn y cynlluniau hefyd, yn ogystal ag unrhyw newidiadau i driniaeth y bobl.

Mae prosesau rheoli heintiau da ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar COVID-19 a sut i ddefnyddio PPE yn ddiogel. Buddsoddodd y gwasanaeth swm mawr o arian i brynu cyflenwadau o PPE ar ddechrau COVID-19 i sicrhau diogelwch pawb dan sylw. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol mai niferoedd bach iawn o achosion o COVID-19 a gafwyd yn y gwasanaeth.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Mae'r ffaith bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth yn dangos hyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn weledol i'r rheolwyr, y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn profi ansawdd y gofal drwy gynnal archwiliadau a thrwy ymgynghori â'r bobl, y staff a gweithwyr gofal iechyd gofal proffesiynol cysylltiedig. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a roddir gan y gwasanaeth a'u bod yn cael eu galluogi i gyflawni eu nodau.

Mae niferoedd addas o staff â gwybodaeth a sgiliau digonol ar waith i ofalu am y bobl. Gwelsom ddogfennau hyfforddiant a goruchwylio a oedd yn dangos bod lefel dda o hyfforddiant a chymorth gan y staff i gyflawni eu rolau. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth, gan fod modd gofyn i aelodau eraill o'r staff weithio os bydd staff yn absennol. Drwy hyn, sicrheir bod y bobl yn cael gofal gan bobl y maent yn gyfarwydd â nhw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn y gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, “I love my job. They have been so supportive during the past year” (Rwy'n dwlu ar fy swydd. Maen nhw wedi bod mor gefnogol dros y flwyddyn ddiwethaf).

Dywedodd yr unigolyn cyfrifol fod y gwasanaeth yn gwneud yn dda yn ariannol, a bod y gwasanaeth wedi gallu buddsoddi arian i brynu cyflenwadau o PPE o ganlyniad i hyn. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi prynu cyfrifiaduron Chrome Book i'r staff i wneud yn siŵr eu bod yn gallu parhau i gael hyfforddiant ac i gyfathrebu'n dda drwy gydol y pandemig.

## Yr Amgylchedd

Nid ydym yn gwneud sylwadau am yr amgylchedd am fod y gofal yn cael ei roi yng nghartrefi'r bobl eu hunain.

Fodd bynnag, gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gartrefi'r bobl cyn i'r gwasanaeth ddechrau gweithredu i sicrhau diogelwch y staff. Lle y bo'n berthnasol, mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar waith gan y bobl petai tân neu argyfwng. Roedd adeilad y swyddfeydd y gwnaethom ymweld ag ef yn ymddangos yn fodern, gyda digon o gyfarpar. Gwelsom fod llawlyfr ar gael a oedd yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau iechyd a diogelwch ar gyfer y staff.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/07/2021